Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

| | |
|---|---|
| **Cyfarfod:** | **Bwrdd Plismona** |
| **Lleoliad:** | **Ystafell Gynadledda SCHTh** |
| **Dyddiad:** | **18 Rhagfyr 2018** |
| **Amser:** | **09:00 – 11:00** |

| | |
|---|---|
| **Aelodau:** | Dafydd Llywelyn, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (CHTh)<br>Carys Morgans, Pennaeth Staff, SCHTh (PS)<br>Beverley Peatling, Prif Swyddog Ariannol (PSA) |
| **Hefyd yn Bresennol:** | Y Dirprwy Brif Gwnstabl Dros Dro Richard Lewis (DBG/DD)<br>Edwin Harries, Cyfarwyddwr Cyllid (CC)<br>Faye Ryan, Caffael (FR)<br>David Harris, Cyfarwyddwr Comisiynu (DH)<br>Jayne Butler, Swyddog Staff, HDP (JB)<br>Mair Harries (MH) |
| **Ymddiheuriadau** | Y Prif Gwnstabl Mark Collins (PG) |

| **CRYNODEB O'R CAMAU GWEITHREDU O GYFARFOD 06/12/2018** | | |
|---|---|---|
| **Rhif y Cam Gweithredu** | **Crynodeb o'r Cam Gweithredu** | **Diweddariad Ynghylch Cynnydd** |
| **PB2370** | **Y CHTh i gyfrannu at yr adolygiad o'r trefniadau ar gyfer Cymru Gyfan yn Gwobrwyo Cydweithio.** | **I'w godi mewn cyfarfod rhwng y PS a Paul Morris.** |
| **PB2371** | **Bydd Tracey Hawthorne yn mynd i gyfarfod o'r Bwrdd Plismona cyn diwedd Mawrth 2019 er mwyn diweddaru aelodau ar waith cyfredol sy'n gysylltiedig â HDP.** | **Mae TH yn mynd i'r cyfarfod ar 26 Mawrth.** |
| **PB2372** | **SC i roi ffigurau sefydliad diweddar gan gadarnhau swyddi sy'n cael eu hariannu'n allanol a/neu'n rhannol.** | **Yn parhau** |
| **PB2373** | **SC i anfon pwyntiau cryno ar y rhesymwaith tu ôl i'r broses o recriwtio swyddogion newydd at VE er mwyn galluogi'r Ffederasiwn Heddlu i gael ei ddiweddaru ar y mater.** | **Yn parhau** |
| **PB2374** | **SCHTh i gadarnhau math ac amlder gwybodaeth AD sydd angen ar gyfer cyfarfodydd Bwrdd Plismona wrth Steve Cadenne.** | **Yn parhau** |
| **PB 2375** | **SC i gadarnhau dyddiad addas â SCHTh ar gyfer cyflwyno'r cynllun hyfforddi mewnol wedi'i gostio mewn cyfarfod o'r Bwrdd Plismona.** | **Yn parhau** |

| | | |
|---|---|---|
| **PB 2376** | **SCHTh i gysylltu â Chymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu i ofyn am ddiweddariad ynghylch gwasanaethau dadansoddol fforensig.** | **Wedi'i gwblhau** |
| **PB 2377** | **Y PG i roi ymateb ysgrifenedig i'r CHTh mewn perthynas â'r argymhellion o fewn adroddiadau Unplygrwydd Data Trosedd ac Iechyd Meddwl AHGTAEM erbyn 18 Rhagfyr 2018.** | **Wedi'i gwblhau** |

## 2. Cofnodion Cyfarfodydd Blaenorol

Gydag ychydig iawn o newidiadau, penderfynodd y Bwrdd fod cofnodion cyfarfod diwethaf y Bwrdd Plismona'n gofnod gwir a chywir o'r cyfarfod.

**Cam Gweithredu – Yr Heddlu i roi dyddiadau Cyfarfodydd Troseddau Gwledig Rhanbarthol i aelodau'r Panel Heddlu a Throseddu.**

PB 2370 – Dywedodd y CHTh ei fod yn dymuno cael gwell dealltwriaeth o drefniadau llywodraethu rhanbarthol a sut mae cyfarfodydd Grŵp Prif Swyddogion Cymru'n gweithredu o ran cyfrannu tuag at Fwrdd Plismona Cymru Gyfan. Holodd y CHTh pa un ai a oes cofnodion yn cael eu cynnal a'u rhannu ar gyfer cyfarfodydd Grŵp Prif Swyddogion Cymru. Ar sail eglurder a didwylledd, gofynnodd y CHTh am gopïau o gofnodion cyfarfodydd blaenorol.

**Cam Gweithredu – Y CHTh i dderbyn cofnodion cyfarfodydd Grŵp Prif Swyddogion Cymru i'w trafod gyda Paul Morris.**

## 3. Diweddariad y Prif Gwnstabl

### Diweddariadau Gweithredol

Rhoddwyd y diweddariad gweithredol i'r CHTh ei ystyried. Ni chafwyd trafodaeth bellach.

### Diweddariadau Sefydliadol

Rhoddwyd y diweddariad sefydliadol i'r CHTh ei ystyried.

## 4. Diweddariad CHTh

### Lleol

Rhoddodd y CHTh ddiweddariad i'r Bwrdd am ymrwymiadau lleol amrywiol, gan gynnwys cyfarfod gyda chynrychiolwyr o gangen Caerfyrddin o Eiriol ar 11 Rhagfyr, a lansio Fforwm Ieuenctid CHTh ar 13 Rhagfyr yn Yr Egin, Caerfyrddin.

### Cenedlaethol

DRAFT

Diweddarodd y CHTh y Bwrdd ar ynghylch amryw o ymrwymiadau cenedlaethol, gan gynnwys ymweliad gan yr Ysgrifennydd Cartref ar 10 Rhagfyr ac ymweliad gan uwch staff SCHTh i Dŷ Portcullis, San Steffan, i gwrdd ag ASau Dyfed-Powys.

## 5. Eitemau Sefydlog

### a) Diweddariad Ariannol

Dywedodd y CC y byddai'r gyllideb ar ddiwedd y flwyddyn ariannol 2018/19 yn arbennig o dynn. Y dyfarniad ar gyfer y cynllun Talu Wrth Ennill ar gyfer Heddlu Dyfed-Powys (HDP) fydd 2%. Dywedodd y CC mai 1,120 yw nifer y swyddogion heddlu yn y sefydliad ar hyn o bryd, gydag ychydig iawn o ymadawyr yn ystod y misoedd i ddod. Bydd 22 swyddog yn cael eu recriwtio ym mis Mawrth 2019 a 22 arall ym mis Medi 2019. Holodd y CHTh sut mae heddluoedd eraill, megis Heddlu Gorllewin Canolbarth Lloegr, sydd wedi gweld gostyngiad o gannoedd o swyddogion heddlu, wedi ymdopi â llai o swyddogion, a sut mae HDP yn cymharu yn erbyn heddluoedd cenedlaethol eraill o ran gostyngiad yn nifer eu swyddogion. Dywedodd y CC nad yw HDP wedi profi'r un gostyngiad o ran nifer, fodd bynnag, nododd fod heddluoedd sydd wedi profi gostyngiad o ran niferoedd swyddogion wedi gweld cynnydd yn nifer y troseddau treisgar a nifer y troseddau cyllyll. Soniodd y CC am Heddlu Swydd Bedford fel enghraifft, sydd wedi dweud wrth y cyhoedd am beidio â galw 101 gan na fydd neb yn ateb. Yn hytrach, gofynnir iddynt alw 999.

Tynnodd y CC sylw at y ffaith bod Arolygiaeth Heddluoedd a Gwasanaethau Tân ac Achub (AHGTAEM) wedi argymell y dylai HDP ganolbwyntio ar yr Uned Wrthlygredd, yr Adran Safonau Proffesiynol, adfer Lleoliadau Trosedd, Cymorth Dadansoddi, a Phlismona Bro ar draws yr heddlu. Dywedodd y DBG/DD y byddai ailgyfeirio staff yn tynnu swyddogion o'r rheng flaen yn y pen draw, a chafwyd trafodaeth ynghylch gwaith y Tîm Gwella Parhaus a'r Tîm Galw a pha un ai a allai'r ddwy adran gydweithio'n agosach er mwyn hysbysu penderfyniadau strategol allweddol o'r fath.

**Cam Gweithredu – Y CHTh a'r PSA i drafod dogfennau ariannol a ddarparwyd ym Mwrdd Plismona 18 Rhagfyr er mwyn gofyn cwestiynau ynghylch y sbectrwm o ddewisiadau a ddarparwyd gan y CC. Bydd y cwestiynau'n cael eu holi yng nghyfarfod y Bwrdd Plismona ar 29 Ionawr.**

**Cam Gweithredu – Y CC i roi senarios i'r CHTh sy'n dangos sut beth fyddai pob dewis praesept.**

**Cam Gweithredu – Y CHTh i gwrdd â Chadeirydd y Panel a'r Aelod Cyllid Arweiniol cyn cyfarfod y Panel Heddlu a Throseddu.**

Cafwyd trafodaeth mewn perthynas â'r rhagamcaniad diwedd flwyddyn. Roedd y CC yn amcangyfrif y byddai tanwariant, er waetha'r sefyllfa gyfredol, sef £550,000 dros y gyllideb. Cydnabu'r CHTh y gwaith da a gwblhawyd gan y Grŵp Aur, ac awgrymodd y gallai'r sefyllfa fod yn wahanol heb ffurfio'r Grŵp Aur mewn ymateb i'r pryderon ariannol a fynegwyd gan y CHTh a'r CC. Cefnogwyd

hyn gan ddogfen y CC, a oedd yn rhagfynegi gorwariant o £2 filiwn pe bai'r gwaith a wnaed gan y Grŵp Aur heb ei gwblhau.

Holodd y PSA pa un ai a oedd newyddion da am y porthladdoedd a'r swyddi diogelwch pwrpasol wedi'i gynnwys yn adroddiad y CC. Dywedodd y CC fod £60,000 ychwanegol o'r dyfarniad ar gyfer y cynllun Talu Wrth Ennill wedi'i gynnwys, fodd bynnag, nid oedd arian o'r porthladdoedd a'r swyddi diogelwch pwrpasol wedi'i gynnwys yn yr adroddiad presennol. Cafwyd trafodaeth ynghylch sut y mae ffigurau HDP yn gyson â'r argymhellion a wnaed gan Grŵp Cydweithio Cymru Gyfan.

**b) Torri Rheoliadau Diogelu Data**

Derbyniwyd adroddiad gan y Bwrdd mewn perthynas â phecynnau rheoli gwybodaeth a fydd yn dechrau cael eu cyflwyno ym mis Rhagfyr 2018 er mwyn codi ymwybyddiaeth ymysg swyddogion a staff am faterion diogelu data.

**7. Materion i'w Trafod**

**a) Ymatebion Plismona ar gyfer y Dyfodol**

Trafodwyd yr eitem agenda hon fel rhan o'r camau gweithredu o'r cyfarfod blaenorol. Roedd yr ymatebion gan y PG wedi'u derbyn cyn cyfarfod y BP ar 18 Rhagfyr.

**b) Dewisiadau sydd ar gael ar gyfer y Prosiect Braenaru**

Roedd Faye Ryan (FR), Rheolwr Caffel, a David Harris (DH), Cyfarwyddwr Comisiynu, yn bresennol yn y cyfarfod i gyflwyno'r dewisiadau sydd ar gael ar gyfer y Prosiect Braenaru er mwyn atal aildroseddu, sy'n cael ei brofi yn Sir Benfro ar hyn o bryd. Dywedodd DH fod gwerthusiad 6 mis o'r prosiect wedi'i gwblhau, gan arwain at ganlyniadau sy'n bennaf amhendant oherwydd yr amser byr y mae'r prosiect wedi bod yn rhedeg. Mae'r nifer sydd wedi cymryd rhan yn y prosiect wedi gwella'n raddol dros y 6 mis diwethaf wrth i swyddogion ddod yn fwyfwy ymwybodol o'r cynllun, fodd bynnag, roedd y niferoedd yn is na'r disgwyl, gan ei gwneud hi'n anodd cytuno ar lwyddiant y prosiect. Trafododd y Bwrdd pa un ai a ddylid estyn y prosiect i siroedd eraill o fewn Dyfed-Powys. Mynegodd y CHTh a'r PSA bryderon ynghylch buddsoddi yn y prosiect pan fod nifer y defnyddwyr gwasanaeth yn isel.

Nododd FR mai'r dewisiadau ar hyn o bryd yw dod â'r cytundeb i ben, estyn y cytundeb heb fawr o newidiadau, neu gyhoeddi cytundeb newydd ar ôl adolygu'r gwasanaeth. Daw'r cytundeb presennol i ben ar 31 Mawrth 2019. Nid oedd y PSA yn teimlo bod digon o amser i adolygu'r hyn y mae HDP a SCHTh angen o'r gwasanaeth. Hefyd, mynegodd bryder ynghylch estyn y cytundeb, sydd ddim yn cynnig gwerth da am arian ar hyn o bryd. Mynegodd y CHTh awydd i astudio'r cytundeb gwreiddiol er mwyn asesu'r defnydd disgwyliedig a chynnal adolygiad o ofynion yn y dyfodol yn seiliedig ar ddefnydd dros y 6 mis diwethaf.

**Cam Gweithredu – SCHTh i astudio'r cytundeb gwreiddiol ar gyfer y Prosiect Braenaru ac ystyried dewisiadau ar gyfer y tymor byr.**

**Cam Gweithredu – DH i ymgysylltu â'r Prif Arolygydd Matt Scrase ynghylch cynllun cyfathrebu yn y dyfodol am y Prosiect Braenaru.**

**Unrhyw Fusnes Arall**

**a) Cytundeb Cydweithredu Camau Cynnar Gyda'n Gilydd**

Cyflwynodd y PS gytundeb i'r Bwrdd a oedd wedi'i drafod o'r blaen gan adran gyfreithiol HDP. Roedd yr adran gyfreithiol wedi argymell adolygiad o sawl agwedd ariannol o'r ddogfen gan y CC a'r PSA.

**Cam Gweithredu – Y CC a'r PSA i ystyried y Cytundeb Camau Cynnar Gyda'n Gilydd cyn mynd nôl at y BP ar gyfer llofnodi yn y flwyddyn newydd.**

| CRYNODEB O'R CAMAU GWEITHREDU O GYFARFOD 18/12/2018 | | |
|---|---|---|
| **Rhif y Cam Gweithredu** | **Crynodeb o'r Cam Gweithredu** | **I'w symud yn ei flaen gan** |
| **PB 2378** | **Yr Heddlu i roi dyddiadau Cyfarfodydd Troseddau Gwledig Rhanbarthol i aelodau'r Panel Heddlu a Throseddu.** | **Heddlu** |
| **PB 2379** | **Y CHTh i dderbyn cofnodion cyfarfodydd Grŵp Prif Swyddogion Cymru i'w trafod gyda Paul Morris.** | **Heddlu** |
| **PB 2380** | **Y CHTh a'r PSA i drafod dogfennau ariannol a ddarparwyd ym Mwrdd Plismona 18 Rhagfyr er mwyn gofyn cwestiynau ynghylch y sbectrwm o ddewisiadau a ddarparwyd gan y CC. Bydd y cwestiynau'n cael eu holi yng nghyfarfod y Bwrdd Plismona ar 29 Ionawr.** | **CHTh/PSA** |
| **PB 2381** | **Y CC i roi senarios i'r CHTh sy'n dangos sut beth fyddai pob dewis praesept.** | **CC** |
| **PB 2382** | **Y CHTh i gwrdd â Chadeirydd y Panel a'r Aelod Cyllid Arweiniol cyn cyfarfod y Panel Heddlu a Throseddu.** | **CHTh/MH** |
| **PB 2383** | **SCHTh i astudio'r cytundeb gwreiddiol ar gyfer y Prosiect Braenaru ac ystyried dewisiadau ar gyfer y tymor byr.** | **DH** |
| **PB 2384** | **DH i ymgysylltu â'r Prif Arolygydd Matt Scrase ynghylch cynllun cyfathrebu yn y dyfodol am y Prosiect Braenaru.** | **DH** |
| **PB 2385** | **Y CC a'r PSA i ystyried y Cytundeb Camau Cynnar Gyda'n Gilydd cyn mynd nôl at y BP ar gyfer llofnodi yn y flwyddyn newydd.** | **CC/PSA** |